# Cynnal pyllau a nodweddion dŵr

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cynnal pyllau a nodweddion dŵr.

Mae'r deunydd a'r offer arferol y byddech yn eu defnyddio yn cynnwys: cerrig a choncrid, leinwyr plastig rhychiog neu hyblyg, pympiau a hidlwyr wedi eu pweru'n drydanol.

Dim ond trydanwyr medrus a chymwys dylai wneud gwaith trydanol.

Os ydych yn gweithio gyda pheiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. bod yn ymwybodol o'r peryglon sydd yn gysylltiedig â chynnal pyllau a nodweddion dŵr
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas
3. paratoi, defnyddio, glanhau, cynnal a chadw a storio offer, cyfarpar a pheiriannau i gynnal pyllau a nodweddion dŵr yn ddiogel ac yn gywir
4. archwilio'r pyllau neu'r nodweddion dŵr cyn gwneud y gwaith cynnal
5. nodi diffygion posibl gyda'r pwll a'r nodwedd ddŵr
6. dewis dulliau ar gyfer cynnal pyllau a nodweddion dŵr
7. gwirio'r pwll neu'r nodwedd ddŵr ar ôl cwblhau'r gwaith gan wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel ac yn addas at y diben
8. gwaredu neu ailgylchu gwastraff yn ddiogel ac yn gywir yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol ac arferion sefydliadol ac i leihau risg amgylcheddol
9. adfer y safle i gyflwr priodol ar ôl cynnal pyllau a nodweddion dŵr
10. lleihau niwed nas dymunir i wasanaethau ac ardaloedd cyfagos
11. cwblhau cofnodion fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol a chan y sefydliad
12. parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
13. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. peryglon sydd yn gysylltiedig â chynnal pyllau a nodweddion dŵr
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. y mathau o offer, cyfarpar a pheiriannau ar gyfer cynnal pyllau a nodweddion dŵr a sut i baratoi, defnyddio, glanhau, cynnal a storio'r rhain yn ddiogel ac yn gywir
4. sut i gynnal arolygiadau o byllau a nodweddion dŵr
5. pwysigrwydd cynnal archwiliadau yn unol â'r amserlen
6. y mathau o broblemau sy'n debygol o ddigwydd gyda phyllau a nodweddion dŵr a sut i ymdrin â nhw
7. y math o niwed sy'n debygol o ddigwydd i wasanaethau a'r ardal gyfagos a sut i gadw hyn mor isel â phosibl
8. pam y mae'n bwysig cadw ardaloedd gwaith yn lân ac yn daclus wrth gynnal pyllau a nodweddion dŵr
9. pam y mae'n bwysig cwblhau gwaith yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni
10. pwysigrwydd adfer y safle i gyflwr glân a thaclus
11. y cofnodion y mae angen eu cwblhau a pham
12. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
13. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
14. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol er mwyn lleihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
15. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Cwmpas/Ystod

A cynnal y mathau canlynol o nodwedd ddŵr:

1. nentydd
2. ffynhonnau
3. rhaeadrau dŵr
4. pyllau

B. adnabod ac ymdrin â'r problemau canlynol wrth gynnal pyllau a nodweddion dŵr:

1. gollyngiadau
2. hidlwyr a phympiau sydd angen eu glanhau
3. hidlwyr a phympiau sydd angen eu hadnewyddu
4. baw a llystyfiant annymunol
5. triniaeth ddŵr

## Geirfa

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau cynhyrchwyr, polisïau sefydliadol.

Nodweddion dŵr: pyllau, llynnoedd, nentydd/ffrydiau, rhaeadrau dŵr, ffynhonnau

LANH38

Cynnal pyllau a nodweddion dŵr

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANL28 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwr, Tirluniwr |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | pwll; llyn; safle; strwythur; rhaeadr; ffynnon; nant |